

Cyngor Tref Amlwch | Town Council

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor 27-6-2023 am 7 o'r gloch

Minutes of the Full Council meeting held at the Town Council Chamber 27-6-2023 at 7pm

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Liz Wood, Alan Wood, Noel Kerr, Meg Roberts, Gordon Warren, Julie Edwards, Nina Bulkeley

Ymddiheuriadau/Apologies: Gareth Thomas, Llinos Knowles Williams, Geraint Thomas, Cyng/Cllr Derek Owen, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithydd/translator)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies

Bu Gareth Roberts gadeirio'r cyfarfod a chroesawyd pawb yn bresennol.

Gareth Roberts chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Liz Wood – bwrdd Rheoli Ysgol Syr Thomas Jones

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Bu cymeradwyo'r cofnodion gydag un gwelliant – 6.1 nodi bod swyddogion CSYM wedi cydnabod bod mynedfeydd maes parcio'r farchnad yn beryglus, ond bod penderfyniad i unigolion ddewis pa fordd y mae gadael y maes parcio. Nodwyd siom yr aelodau nad oedd bwriad gan CSYM roi system un ffordd ym maes parcio'r farchnad a bu nodi pryder am ddiogelwch y safle yn enwedig ar fore Gwener. Cynnig Meg Roberts, eilio Gordon Warren.

The minutes were approved with one amendment – 6.1 to note that the IACC officers had acknowledged that the entrances to the market car park were dangerous but rather it was an individual choice as to which way people exited the car park. The members' disappointment was noted that there was no intention by IACC to introduce a one-way system in the market car park and concerns in relation to safety on the site especially on Friday morning were noted. Proposed Meg Roberts and seconded by Gordon Warren.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Materion Priffyrdd / Highways Matters

Daw ymateb gan CSYM yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i Liz Wood a'r aelodau sirol ddilyn i fynu gyda'r swyddogion perthnasol. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a CSYM i dynnu sylw unwaith eto am bryderon yr aelodau am ddiogelwch maes parcio'r farchnad a hefyd y trefniant presennol ger y Kings Head/Deintydd. Gofynnwyd i'r clerc sicrhau bod CSYM yn cydnabod derbyn yr ohebiaeth a phryderon y Cyngor.

A response from the IACC had been received following the last meeting. Liz Wood and the County Council members were asked to follow up on these with the relevant officers. The clerk was asked again to contact the IACC to draw attention to the members' concerns in relation to safety at the market car park and also the current situation by the King's Head/Dentist. The clerk was asked to ensure that the IACC acknowledge receipt of the correspondence and the Council's concerns.

4.2 Cafwyd gadarnhad gan CSYM bod cyfleusterau anabl ar gael yn nhoiledau cyhoeddus Lon Goch a bod angen goriad radar i gael mynediad. Bu'r aelodau nodi mai dim ond tra bod y cyfleusterau ar agor oedd posib cael mynediad i'r cyfleuster anabl gan fod angen cael drwy'r giat cyn agor y drws. Y clerc i dynnu sylw CSYM.

Confirmation had been received from IACC that facilities for the disabled were available in the public conveniences on Lon Goch and that a radar key was required for access. The members noted that it was only when the toilets were open that it was possible to gain access to the disabled facilities since one had to get through the gate before being able to open the door. The clerk to draw this to the IACC's attention.

4.3 Cafwyd gwybod bod yr heddlu a gwasanaeth tân yn cydweithio gyda perchenog safle Garej

Glanrhos i'w ddiogelu.

Information had been received that the police and the fire service were working with the owner of Glanrhos Garage to make it safe.

- 4.4 Ni fu diweddariad am gyfarfod gydag Arolygydd yr Heddlu, Nodwyd bod angen cyfarfod gyda swyddog o'r adran eiddo i drafod rhent yr Orsaf yn Amlwch a'r system CCTV. Y clerch i wneud ymholiadau pellach.

No update on the meeting with the Police Inspector. It was noted that a meeting was required with an officer from their property department to discuss the rent for the Station in Amlwch and the CCTV system. The clerk to make further enquiries.

- 4.5 Ni fu ymateb gan CSYM ynglyn a dyddiad nesaf Grwp Defnyddwyr Porthladd Amlwch. Gofynnwyd i'r Aelodau Sirol ddilyn y mater i fyny ac adrodd yn ol.

No response had been received from the IACC in relation to a date for the next Amlwch Port Users Group. The County Councillors were asked to take the matter up and report back.

- 4.6 Yn dilyn rali llwyddianus yn Llangefni, deallwyd bod Lôn Las Môn wedi trefnu rali yn Amlwch bore Sadwrn 8-7-2023 am 10 or gloch. Bu'r aelodau gytuno cysylltu a Lein Amlwch am gadarnhad o'u cynlluniau, amserlen a chostau arfaethiedig er mwyn cymhariaeth teg.

Following a successful rally in Llangefni, it was understood that Lôn Las Môn were organising one in Amlwch on the morning of Saturday 8th July 2023 at 10a.m. The Members agreed to contact Lein Amlwch to ask them for confirmation of their plans, timetable and proposed costs in order to get a fair comparison.

- 4.7 Nodwyd bod tenantiaid Caban y Cei wedi cymryd cyfrifoldeb am y cyflenwad trydan i'r adeilad ac y byddai'r Cyngor Tref yn cyfrannu tuag at gostau trydan y toiledau tra eu bod ar agor.

It was noted that the tenants of Caban y Cei had taken responsibility for the electricity supply to the building and that the Town Council had agreed to contribute towards the electricity cost of the toilets whilst they remained open.

- 4.8 Biniau cyhoeddus – gofynnwyd i'r Aelodau Sirol ymdrin â'r mater. Mae'n debyg bod ardaloedd eraill yn cael biniau ychwanegol. Mae'r angen am finiau yn y lleoliadau oedd wedi eu hadnabod yn parhau. Bu cytuno symud un o'r biniau ym Mhorth Amlwch (ger y llofft), ac un o'r rhai ym Mhorth Llechog.

Public bins – the County Councillors were requested to take the matter forward. It seems that other areas are getting extra bins. The demand for bins in the areas identified remains. It was agreed to move one of the bins in Amlwch Port (by the loft) and one of the ones in Bull Bay.

5 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

- 5.1 Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership
Cafwyd wybod bod cynrychiolaeth o'r bartneriaeth wedi cwrdd yn ddiweddar gyda Virginia Crosbie. Nodwyd siom nad oedd atebion i'w cael.

Bu'r aelodau nodi siom bod yr Aelod Seneddol yn hysbysebu diwrnod glanhau yn Amlwch, gan nodi ei bod yn annheg iawn i'r sawl sy'n gweithio i lanhau strydoedd y dref ac yn gwneud gwaith arbennig. Cytuno yn unfrydol cysylltu â'r cwmni i ddiolch iddynt am eu gwaith.

It was reported that representatives of the partnership had met recently with Virginia Crosbie. It was noted that many questions remained unanswered.

The members expressed their dismay that the Member of Parliament had been promoting a cleaning day in Amlwch which they felt was extremely unfair for those working so hard to keep the town's streets clean and doing a great job. It was agreed unanimously to contact the company to thank them for their work.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd crynodeb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nodwyd bod taliadau wedi eu cymeradwyo yn ol yr arfer. Cafwyd wybod bod CSYM yn ymgynghori ar strategaeth datblygu canol trefi Môn ac argymhellwyd bod y Cyngor yn trefnu cyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol cyn gynted â phosib. Bu cytuno yn unfrydol trefnu cyfarfod pwrpasol a gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno syniadau yn ysgrifenedig ymlaen llaw er mwyn cysoni rhestr i'w thrafod. Bu cytuno hefyd ymgynghori â busnesau, mudiadau a rheini oedd yn byw a gweithio yn y dref – Meg Roberts a'r clerc i drafod ymhellach. Nodwyd byddai cyfarfod gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr CSYM i drafod diffyg buddsoddiad cyffredinol yn y dref.

Derbyniwd ceisiadau gan wahanol fudiadau i ddefnyddio'r caeau chwarae dros yr haf ar gyfer gweithgareddau teuluol – ni fu gwrthwynebiad ar yr amod bod copi o'r yswiriant ac asesiad risg perthnasol yn cael ei anfon i'r clerc cyn y digwyddiadau.

Cafwyd gwybod bod posibilrwydd i'r Pwyllgor Cyllid gwrdd â Vaughan Gethin ar ei ymweliad i'r ynys canol mis nesaf. Byddai croeso i unrhyw aelod o'r Cyngor ymuno â'r cyfarfod.

Myrddin Owens gave a brief update of the meeting. It was reported that payments had been approved as per usual. Information had been received that the IACC were consulting on a strategy to develop the town centres of Anglesey and it was proposed that the Council organises a meeting with the relevant officers as soon as possible. It was agreed unanimously to arrange such a specific meeting and Members were requested to present ideas in writing beforehand in order to agree upon a list for discussion. It was also agreed to consult with businesses, organisations and parents who worked in the town – Meg Roberts and the clerk to discuss this further. It was also noted that a meeting would be arranged with the Leader and Chief Executive of the IACC to discuss the lack of investment in general in the town.

Requests had been received from various organisations for permission to use the playing fields over the summer for family activities – there were no objections subject to the clerk receiving copies of insurance cover and relevant risk assessments prior to the activities taking place.

It was reported that there was an opportunity for the Finance Committee to meet with Vaughan Gethin when he visits the island in the middle of next month. There was a warm welcome for any member of the Council to attend the meeting.

7 Materion Cynllunio / Planning Matters

7.1 Bu ystyried y ceisiadau canlynol / the following applications were considered:

FPL/2023/119 Bull Bay Hotel – dim gwrthwynebiad/no objection

HHP/2023/108 – dim gwrthwynebiad/no objection

7.2 Cafwyd gwybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / IACC decisions were noted as follows:

HHP/2023/68 18-19 Ednyfed Hill – wedi ei ganiatau/approved

HHP/2023/87 Rayburn, Bull Bay – wedi ei ganiatau/approved

FPL/2023/108 Ysgol Syr Thomas Jones – wedi ei ganiatau/approved

7.3 Materion Cynllunio Eraill / Other Planning Matters

Daethpwyd ag ebost at sylw'r aelodau yn ymwneud â llwybr cyhoeddus heibio Parys Farm.

Nodwyd nad oedd y Cyngor Tref yn gyfrifol am unrhyw lwybrau ac mai mater i CSYM fyddai hwn.

Cytuno ymateb i'r ebost i gadarnhau hynny

An e-mail was drawn to the members attention in relation to a public footpath that goes past Parys Farm. It was stated that the Town Council has no responsibility in relation to any footpaths and that it was a matter for the IACC. It was agreed to respond to the e-mail to convey this.

8 Cwestiynau i'r Cyngorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

8.1 Croesfan ger yr Ysgol Gynradd – bu Liz Wood gadarnhau bod disgwyl diweddariad gan swyddogion Teithio Llesol CSYM os oedd posib symud ymlaen â'r cynnig. Nodwyd bod y warden traffig wedi ymweld a'r ardal yn ddiweddar, ond bod nifer o rieni yn parcio ar linellau melyn yn parhau yn problem.

Crossing near the Primary School – Liz Wood confirmed that an update was expected from the IACC's Active Travel Officers to see if it was possible to move forward with the proposal. It was stated that the traffic warden had visited the area recently and that the number of parents still parking on yellow lines was a problem.

- 8.2 Bu gofyn i'r aelodau wirio gyda CSYM os oedd y safle bws ym Mhorth Amlwch yn parhau yn weithredol neu peidio. Mae angen arwyddion perthnasol i gadarnhau un ffordd neu'r llall gan fod nifer wedi bod yn disgwyl yno yn ddiweddar heb wasanaeth.

The County Councillors were asked to check with the IACC if the bus stop in Amlwch Port was still operative or not. Relevant signs are required to confirm this one way or the other since quite a few people had been waiting there recently with no bus service.

9 CCTV

Er gwybodaeth, mae cais wedi ei gyflwyno gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Mon am 19 o gamerau ychwanegol yn y dref. Bydd cost yr offer a'u cynnal am ddwy flynedd wedi ei gynnwys yn y cais. Ni fu gwrthwynebiad.

For information an application had been submitted to the Gwynedd and Anglesey Community Safety Partnership for 19 extra cameras in the town. The equipment and maintenance costs for 2 years will be included in the application. There were no objections.

10 Gohebiaeth / Correspondence

Nodwyd bod unrhyw eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost wrth iddynt ddod law.

It was noted that all items of correspondence had been forwarded to the Members by e-mail as and when they came to hand.

11 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- 11.1 Bydd cyfarfod Parciau a Mannau Agored i'r gynnal yn fuan i drafod y caeau chwarae
The Parks and Open Spaces Committee will meet soon to discuss the playing fields.

- 11.2 Nodwyd bod angen torri peth o'r eithin ger y llecyn claddu llwch yn y fynwent. Bu Gerry Belanger wirfoddoli gwneud peth o'r gwaith.

It was stated that there was a need to cut down some of the gorse growing adjacent to the ashes burial site in the cemetery. Gerry Belanger volunteered to do some of the work.

- 11.3 Daw cwyn am botiau blodau yn mynd ar goll o'r fynwent. Cytuno monitro'r sefyllfa a chadw golwg.

A complaint had been received in relation to flower pots going missing in the cemetery. It was agreed to monitor the situation and keep a watchful eye on things there.

- 11.4 Daw cwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn y Ganolfan Waith. Mae'n debyg bod angen gwneud apwyntiad ffon i gael trafod Materion yn y Gymraeg. Cytuno ysgrifennu i dynnu sylw a nodi siom, gan bwysleisio nad oedd yn yn dderbynniol.

Complaints had been received in relation to the lack of Welsh language service in the Job Centre. It appears that a pre-arranged telephone appointment is required to discuss matters through the medium of Welsh. It was agreed to write to convey disappointment and to emphasise that this is not satisfactory.

- 11.5 Bwrdd Rheoli Ysgol Syr Thomas Jones Management Board

Bu Liz Wood ddatgan diddordeb a gadael yr ystafell. Trafodwyd yr hyn gafodd ei ddweud gan y Dirprwy Arweinydd yn ddiweddar a bu cydnabod pryderon a siom rhieni ac aelodau'r gymuned. Bu cytuno ysgrifennu at gadeirydd y Bwrdd Rheoli hefo copi i'r Pwyllgor Safonau i nodi pryder y Cyngor Tref a gofyn pam nad oedd cais wedi ei wneud i'r unigolyn ymddiswyddo.

Liz Wood expressed an interest and left the meeting. The comment made recently by the Deputy Leader was discussed and the concerns and disappointment of both parents and members of the community were noted. It was agreed to write to the Chair of the Governors and a copy sent to the Standards Committee to express the Town Council's concern and to ask why there had been no request for the individual to resign.

11.6 Cymdeithas Elusennol Môn

Dosbarthwyd rhestr o'r grwpiau a'r mudiadau a oedd wedi bod yn llwyddianus yn y rownd ddiweddar (grantiau mawr). Nodwyd siom am ddiffyg cymeradwyaeth yn ardal Amlwch. Wedi trafodaeth, cytuno gofyn am restr o'r ceisiadau a oedd wedi eu cyflwyno a methu yn ogystal a'r rhai oedd wedi llwyddo (grantiau mawr a bach). Teimlai'r aelodau y dylai un aelod etholedig o pob ward ar yr ynys fod yn aelod o'r Bwrdd er tecwch.

A list of all the groups and organisations that had been successful in the last round (large grants) was distributed. Disappointment was expressed at the lack of approvals for the Amlwch area. After a discussion it was decided to ask for a list of the applications submitted which were unsuccessful and those that had been successful (large and small grants). The Members felt that an elected Member from each ward should be a member of the Board in order to ascertain fairness.

12 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn 25-7-2023 am 7yh.
The next Full Council meeting will be held 25-7-2023 at 7pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.15yh /*The meeting closed at 8.15pm.*

Gareth Winston Roberts OBE
Cadeirydd / Chair
Cyngor Tref Amlwch Town Council